| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymyrraeth** | **Cynnig Casnewydd** | | | **Gwyrdd** | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
| | | | | **Oren** | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| **Arwain** | Y Cynghorydd Jane Mudd a Steve Ward | **Cyfnod Adrodd** | Chwarter 2 2022-23 | **Coch** | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Cwr Gwybodaeth Casnewydd: Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer campws newydd canol dinas Coleg Gwent; Datblygu parhaus ar Ganolfan Ymchwil a Datblygu Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (SGDdC) ar gampws PDC Casnewydd gan creu Pentref Iechyd Digidol ar-lein i roi amgylchedd hyfforddi efelychol ar gyfer nyrsio a gofal iechyd cysylltiedig. Datblygu cais ariannol Codi'r gwastad ar gyfer Sefydliad Technoleg Cenedlaethol newydd yng nghanol y ddinas.

Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd: Mae ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd wedi digwydd er mwyn cael dealltwriaeth gychwynnol o flaenoriaethau hinsawdd ein cymunedau. Mae hyn yn cael ei gyflwyno i ysgolion yn yr hydref.

Hyrwyddo'r Ddinas: Gwefan Cyrchfan Casnewydd wedi'i gwella gyda chynnwys newydd i hyrwyddo asedau, cryfderau a gweledigaeth y ddinas i ymwelwyr, busnesau, trigolion a buddsoddwyr. Adran Bwyta Allan wedi ei ddatblygu law yn llaw â Gŵyl Fwyd Casnewydd.

Twristiaeth: Cychwyn prosiectau datblygu ymwelwyr ar gyfer y Bont Gludo. Gwaddol menter Lefelau Byw yn cael ei datblygu, ar ôl cymeradwyo cyllid gan CNC. Mae fframwaith datblygu ar gyfer codi pwysigrwydd Caerllion i dwristiaeth / treftadaeth, yn cael ei ddatblygu ar gyfer gwaith ymgynghori. Cynhaliwyd digwyddiad masnach teithio yn y Gwesty Mercure newydd a Theatr Glan yr Afon, gan arddangos atyniadau dinesig ar gyfer ymweliadau gan grwpiau yn y dyfodol.

Digwyddiadau a gyflawnwyd: Digwyddiadau Jiwbilî Platinwm; Ras Faton y Frenhines; Penwythnos Celf a Diwylliant Sblash Mawr; Pride in the Port, Gŵyl Reggae and Riddim; Rhaglen gerddoriaeth fyw Canol y Ddinas; digwyddiadau ymgysylltu teulol Chwaraeon yn y Parc; Gŵyl Fwyd Casnewydd; Y Siop Siarad (gofod cyhoeddus i archwilio'r croestoriad rhwng cyfranogiad diwylliannol a democrataidd); Llwybrau Stori.

Canol y Ddinas - Cyllid Strydoedd Saffach yn cael ei ddefnyddio i ddarparu Llysgenhadon Nos Galan Casnewydd NAWR ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.

Celf stryd newydd a grëwyd yn y ddinas gan gynnwys yn ardaloedd Shaftesbury a Philgwenlli.

Cais am arian wedi ei gyflwyno ar gyfer gwaith newid ymddygiad i gynyddu teithio llesol.

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Blaenorol Blwyddyn | Gwirion-eddol | COG |
|---|---|---|---|
| % yn dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw | 52.3% | 57.1% | Gwyrdd |
| % yn dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw | 50.0% | 53.0% | Gwyrdd |
| % sy'n falch o ddod o Gasnewydd | 46.6% | 47.4% | Gwyrdd |
| Nifer yr ymwelwyr | (2019: 4,674,000)<br>2020: 1,917,000 | 2021: 2,110,000 | Oren ↑ |
| Gwerth twristiaeth | (2019: £441 M)<br>2020: £149.M | 2021: £220M | Oren ↑ |
| % y bobl mewn gwaith | >75% (Mawrth 2021) | | |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Adolygu canlyniadau arolwg cyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd i gael dealltwriaeth gychwynnol o flaenoriaethau hinsawdd ein cymunedau.

Datblygu Cynllun Creu Lleoedd yng Nghanol y Ddinas/Prif Gynllun wedi'i adnewyddu gan ddefnyddio egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Datblygu strategaeth ddiwylliannol ar gyfer y ddinas.

Datblygu cais i Gasnewydd gynnal Porthladd Rhydd Cymru.

Datblygu clwstwr seiber drwy bartneriaeth Porth y Gorllewin.

Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau a cheisio cyflwyno mwy o ddigwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a rhyngwladol. Datblygu digwyddiadau arfaethedig yn y ddinas gan gynnwys: Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru 2023; Marchnadoedd a digwyddiadau Nadolig; Cefnogaeth i bêl-droed Cwpan y Byd yn Rodney Parade.

Cartrefi fforddiadwy newydd ar y gweill: Cartrefi Dinas Casnewydd yn darparu uwchgynllun Ringland (160 o gartrefi ac unedau masnachol); fflatiau deiliadaeth gymysg yn Coverack Road ac Olympia House. Mae POBL a'r datblygwr tai Lovell yn gweithio mewn partneriaeth i greu 500 o gartrefi newydd yng Ngerddi Locke, Glan Llyn.